

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
5 Mawrth 2015 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Geraint R. Jones, Gwyneth Thomas, Ifor Dylan Williams, Sioned Williams, Chris Hughes, Ian Jones, Rhys Pugh
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Gwyneth Thomas, Ian Jones, Ed Huws, Rhys Pugh

2. DATGAN BUDDIANT

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd. Cynnig: Geraint Jones

Eilio: Dafydd Iwan

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Porth Eglwys Sant Baglan

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi dod o hyd i drosglwyddiad 27 Hydref 1925 rhwng Comisiynwyr yr Eglwys yng Nghymru o Eglwys Sant Baglan i Gadeirydd a Goruchwylwyr Plwyf Llanfaglan.

Byddant yn danfon copi at y Clerc wedi i'r ffi briodol gael ei thalu.

4.2 Arhosfan Fysiau Llanfaglan

Y Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt gadw'r arhosfan fws yn ei safle presennol, yn hytrach na'i symud fel yr awgrymwyd o'r blaen.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i gadw'r arhosfan yn ei safle presennol.

4.3 Gwersylla ger y Foryd

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder na fydd arwyddion yn cyfyngu parcio, fel yr awgrymwyd gan Gyngor Gwynedd, yn datrys problem y rhai sydd yn parcio tymor hir ger Y Foryd.

Fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw gamau eraill gan Gyngor Gwynedd, cytunwyd y dylid monitro'r sefyllfa dros y gwanwyn a'r haf ac ystyried unrhyw ddulliau gorfodaeth bellach, gan gynnwys codi tâl ar y rhai sy'n parcio.

4.4 Ymgynghoriad Symud Swyddfa Post Y Bontnewydd

Ysgrifennodd y Clerc at Swyddfa'r Post, gan nodi fod Cyngor Cymuned Y Bontnewydd yn cefnogi symud y Swyddfa Bost o'i safle presennol i siop Mc Coll's.

Gwnaethpwyd sylwadau o ran gwelediad a mynediad i'r maes parcio ar ochr y siop, a bydd y Swyddfa Bost yn ystyried y sylwadau yma fel rhan o'r ymgynghoriad.

Mater i'r Post Brenhinol yn hytrach na Swyddfa'r Post yw lleoliad blychau postio yn y pentref.

4.5 Grant Presenoldeb ar y We

Mae'r Clerc wedi derbyn cadarnhad o grant am swm o £500 gan Gyngor Gwynedd er mwyn cydymffurfio efo'r gofynion statudol o ran rhoi gwybodaeth am y Cyngor ar y we.

Cytunwyd fod y Clerc yn defnyddio'r £500 i wella a diwygio presenoldeb presennol y Cyngor Cymuned ar wefan bresennol Ysgol Bontnewydd, os yw hyn yn bosibl.

4.6 Tai Libanus

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd yn gofyn am osod arwydd yn enwi'r rhes tai yn Lôn Groes yn "Tai Libanus".

Oherwydd mai fel "Rhes Libanus" y'u hadnabyddir ar system Cyngor Gwynedd a'r Swyddfa Bost, yna dim ond yr enw "Rhes Libanus" sy'n dderbyniol i Gyngor Gwynedd.

Gofynnodd y Clerc i Gyngor Gwynedd am ddefnyddio enw uniaith Gymraeg gan hepgor y cyfieithiad Saesneg, ond rhaid gwneud cais ffurfiol ar gost o dros £490 am hyn, ac nid oes sicrwydd y byddai'n llwyddiannus.

Cytunwyd fod y Clerc yn gofyn i'r Cyngor osod arwydd yn enwi'r rhes yn "Rhes Libanus/ Libanus Terrace."

4.7 Baw cŵn a thipio slei bach Lôn Groes

Penderfynwyd cytuno i awgrym Cyngor Gwynedd i gynnal cyfarfod safle.

4.8 Ymgynghori ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol

Trafodwyd ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio Llywodraeth Leol. Mae'r Papur Gwyn yma yn argymhell pwerau ychwanegol i gynghorau cymuned.

Cytunwyd fod y Cynghorydd Geraint R. Jones yn drafftio sylwadau ac yn eu cylchredeg er mwyn cynnal trafodaeth bellach ym mis Ebrill.

4.9 Cynllun Datblygu ar y Cyd Lleol Gwynedd a Môn

Dau ddarn o dir sydd wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad yn Y Bontnewydd fel rhan o'r Cynllun Datblygu.

Un darn yw tir ger Cefnwerthlwyd ble y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2009 i Watkin Jones adeiladu 26 o dai.

Cytunwyd fod angen mwy o dai ar gyfer pobl hŷn a phobl ifanc yn Y Bontnewydd. Ar hyn o bryd mae nifer o breswylwyr ym Montnewydd gyda 2 neu 3 ystafell wely pan fyddai un ystafell wely yn ddigonol.

Bid y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i gyfleu'r farn yma ac i nodi nad yw'r Cyngor Cymuned o'r farn fod y llecynnau tir sydd wedi eu clustnodi yn ddigonol.

Gofynnwyd hefyd i'r Clerc gysylltu efo Watkin Jones a gofyn beth yw eu bwriadau parthed y tir yng Nghefnwerthlwyd

5.MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau clerc Chwefror 2014

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18

Cyfanswm Net £211.58

5.2 Costau postio £1.79

.

5.3 Ffi Archwiliwr Mewnol 2013/14 £63.00

5.4 PWLB 12 Mawrth £406.35

5.5 Balans yn y Banc 5 Mawrth 2015 £4,842.11

6 CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7 GOHEBIAETH

Ymgynghori Statudol ar Orchymyn Glyn Rhonwy (Gorsaf Bwmpio)

- Nodwyd a gwerthfawrogwyd y cyfle i gynnig sylwadau ond gan nad oedd yn effeithio ar Fontnewydd yn uniongyrchol, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu yn cefnogi'r cynllun mewn egwyddor ond gan annog y cwmni i sicrhau fod gweithwyr lleol yn cael eu cyflogi ar y prosiect

8 MATERION ERAILL

8.1 Difrod i wydr arhosfan fysiau Cartref Bontnewydd

Mae un paen gwydr yn yr arhosfan fysiau dros y ffordd i Gartref Bontnewydd wedi ei ddifrodi'n ddiweddar.

Bydd yn costio tua £200 am banel newydd a chostau gosod. Gan nad oedd gwahaniaeth yn y pris, penderfynwyd gosod panel gwydr plastig yn hytrach na phanel metel.

8.2 Parcio ar y Pafin Ger Teras Brymer

Mae'r Heddlu wedi derbyn cwyn fod ceir yn parcio ar y palmant o flaen Rhes Brymer gan achosi rhwystr o'r palmant, ac wedi gofyn am farn y Cyngor Cymuned ar y sefyllfa.

Trafodwyd y mater gan awgrymu y byddai'r ffordd osgoi newydd yn cynnig datrysiad. Y broblem yw y byddai gosod llinellau melyn yn y fan hyn ac erlyn y rhai sy'n parcio ond yn debygol o symud y broblem i ran arall o'r pentref. Cytunwyd nad oedd ateb hawdd, ac mai anodd oedd cadw cydbwysedd rhwng anghenion y preswylwyr, y rhai sy'n cerdded ar y palmant a defnyddwyr y ffordd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol Gwynedd gan mai nhw sydd berchen nifer o'r tai, er mwyn gweld os oes posibilrwydd datblygu lle parcio y tu cefn i'r tai, cyn trafod ymhellach a llunio ymateb i'r Heddlu.

8.3 Diolch i gymwynaswyr lleol

Awgrymodd y Cynghorydd Dafydd Iwan ysgrifennu llythyr o ddiolch i Mr Eliason am ei waith gwirfoddol yn casglu sbwriel yn ardal Y Bontnewydd.

Awgrymodd y Cynghorydd Ifor Williams ysgrifennu llythyr o ddiolch at Mr Beales am ei waith gwirfoddol yn torri gwair yn Eglwys Llanfaglan

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :

Cofnodion cyfarfod MAWRTH 2015

8.4 Gwydr hysbyswrdd Llanfaglan wedi cracio

Mae gwydr hysbyswrdd Llanfaglan wedi cracio yn yr haul. Gan fod yr hysbyswrdd yn gymharol newydd, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at North Wales Fencing gyflenwodd yr hysbyswrdd gan ofyn iddyn nhw ei ail-osod heb dâl.

8.5 Llwybr Beicio Lôn Rhos-bach

Does dim arwydd ar y llwybr beicio/cerdded ble mae'n croesi'r ffordd Rhos-bach, Caeathro, yn rhybuddio defnyddwyr i arafu wrth groesi'r ffordd.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn am arwydd.

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 2 Ebrill 2015, am 7yh.